

❖ TALU'N DYLED

O na fyddai'n wir! Byddai cannoedd yn cysgu'n dawel. Byddai miloedd yn rhydd o'u pryderon. A chaem ninnau wario fel y mynnem y Nadolig hwn heb boeni'r un iot am yr un ddyled na bil.

Un o'r amryw gwmnïau credyd yw hwnnw y gwelais ei arwyddion ar gwr yr A55 y dydd o'r blaen. Ydych chi'n cofio'r Beatles yn canu 'We can work it out'? Mae'r cwmni credyd yn dweud y gall 'write it off'. Dyna newydd da i'r sawl fydd yn gwario gormod y Dolig hwn. Dyna ryddhad i'r rhai a ddaliwyd yng nghrafanc dyled ddofn. Mae help wrth law trwy'r cwmnïau sydd am eu tynnu o'u trafferthion. Mae'r cwmnïau cedyd am glirio'r dyledion i gyd. O na fyddai'n wir!

Digon posibl y gall y cwmnïau helpu trwy ostwng yr ad-daliadau rheolaidd. Ond yn hytrach na'u clirio maent yn cyfnewid hen ddyledion am rai newydd. Pa mor ffafriol bynnag y telerau a gynigiant, talu'n ôl sydd raid. Breuddwyd ffwl yw'r gobaith am gwmni a ddaw i glirio ac i ddileu dyledion ei holl gwsmeriaid.

Ac eto, dyna'n union a wnaeth cwmni'r nefoedd. Pan ddaeth Iesu Grist i ddelio â phechod y byd roedd fel petai Duw ei hun yn gweiddi, 'We can work it out; we can write it off.' Roedd pobl mewn dyled fawr, heb y gobaith lleiaf o'i thalu. Roedden nhw i fod i garu Duw ac ufuddhau iddo.

Roedden nhw i fod i anrhydeddu Duw ym mhob dim a wnaent. Roedden nhw i fod i roi'r lle cyntaf i Dduw ym mhob rhan o'u bywyd. Ond doedden nhw ddim yn agos at wneud hynny. Doedden nhw ddim yn agos at setlo'r bil. Roedd eu dyled y tu hwnt i'w gallu i'w chlirio. A chanlyniad hynny fyddai methdaliad a cholli cymdeithas â'r Duw glân a pherffaith. Ond, er mawr ryfeddod, daeth yn Ddolg arny'n nhw, ac arnom ninnau.

'Bydd [Mair] yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu, am mai ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau,' oedd neges yr angel i Joseff. Dathlu dyfodiad y Gwraedwr hwn a wnawn ni'r Nadolig hwn eto. Mae Duw ei hun wedi clirio'r ddyled trwy wneud ei Fab yn gyfrifol amdani. Ar Galfaria fe gymerodd Iesu Grist y cyfrifoldeb am ein pechodau ni, a'r bai amdanynt. Fe dderbyniodd y ddyled oddi arnom, a mynd yn fethdalwr yn ein lle. Credwn mai dyna a wnaeth. Pwyswn ar yr addewid ei fod wedi clirio'n dyled.

Mae'r ddyled wedi ei chlirio'n llwyr. Cawsom faddeuant llawn a rhad. Mae cwmni'r nef wedi dileu'r cyfan a rhoi llechen lân i'r sawl sy'n credu yn Iesu. A bydd y llechen yn aros yn lân am byth. Yng ngeiriau Dafydd Jones:

Dyma gyfaill haedda'i garu,
a'i glodfori'n fwy nag un:
prynu'n bywyd, talu'n dyled,
a'n glanhau â'i waed ei hun.

John Pritchard